COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR DYDD LLUN, 19 MAWRTH 2018, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | Bennett | H Bennett |
| JPD Blundell | MC Clarke | Cllr R Davies | Cllr S Dendy |
| Cllr L Desmond-Williams | Cllr D Evans | Cllr P Jenkins | Jones |
| Kearn | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | KL Rowlands |
| CE Smith | SG Smith | RME Stirman | T Thomas |
| JH Tildesley MBE | Warren | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies, Cllr C Evans, Cllr D John, B Sedgebeer a/ac A Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

154. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cyng H Bennett fuddiant personol yn eitem agenda 5, Glanhau a Chynnal a Chadw Canol y Dref, pwynt 4.21 Gweithio/Gwirfoddoli yn y 3ydd Sector gan mai hi yw CEO CVC a Chanolfan Wirfoddoli dros y BAVO Sirol.

155. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cyfarfod cofnodion Fforwm Cyngor Tref a Chymuned ar 16 Hydref 2017 fel cofnod gwir a chywiro.

156. ADOLYGU DYFODOL Y SECTOR CYNGOR TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU

Derbyniodd y Fforwm gyflwyniad gan Claire Germain, Llywodraeth Cymru (LlC) ar ymgynghoriad ar yr Adolygiad ar Ddyfodol y Sector Cyngor Tref a Chymuned yng Nghymru. Esboniodd fod Panel Adolygu Annibynnol wedi'i benodi i ystyried rôl bosibl llywodraeth leol. Byddai'r Panel Adolygu hefyd am ddiffinio'r model/strwythur mwyaf priodol i gyflawni'r rôl hon a sut dylid rhoi'r modelau a'r strwythurau hyn ar waith ledled Cymru. Ers dechrau'r Adolygiad ym mis Gorffennaf y llynedd, mae'r panel wedi clywed barn a chasglu tystiolaeth gan ystod o randdeiliaid gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a rhanddeiliaid allweddol. Dywedwyd wrth y Fforwm y croesawir eu barn ar yr hyn y dylent fod yn gyfrifol amdano, sut y dylent weithredu, pa rwystrau sy'n eu hwynebu a'r cyfleoedd sy'n bodoli a rhoddwyd dolen i arolwg lle y gellir cyflwynir gwybodaeth. Dywedwyd wrth y Fforwm y cesglir y canfyddiadau ym mis Gorffennaf a'u rhoi mewn adroddiad terfynol fydd ar gael yn yr hydref.

Cododd Aelodau'r fforwm nifer o faterion gan gynnwys:

- Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cydweithio a phroblemau gyda'r gwahaniaeth mewn praeseptau.
  Esboniodd cynrychiolydd LlC fod y Panel yn dal i fod yn gwrando ac yn dwyn tystiolaeth ynghyd o ran ystyried llais y gymuned a cydweithio i ddarparu gwasanaethau.
- Y gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae Cynghorau Tref a Chymuned ei eisiau a'i angen.
  Esboniodd cynrychiolydd LlC fod y synnwyr o wahaniaethau'n dod drwy'n gryf a'r pwynt allweddol yw'r hyn y mae'r gymuned ei eisiau a'i angen.
- A ragwelir Cynghorau Tref a Chymuned mwy pwerus?
  Esboniodd cynrychiolydd LlC ei bod yn rhy gynnar i gael farn cadarn ond roedd y Panel yn gofyn a oes angen mwy o bwerau ar Gynghorau Tref a Chymuned.
- Gwerth cyngor cryf pan fo angen.
- Pe bai mwy o gyfrifoldebau gan Gynghorau Tref a Chymuned fyddai cyllid, cyllid allanol yn benodol, yn cael ei adolygu?
  Dywedodd cynrychiolydd LlC ei bod yn ymddangos bod hyn yn thema yn y dystiolaeth eu bod wedi'i hystyried hyd yn hyn.
- Diffyg dylanwad o ran ceisiadau cynllunio.
  Gallai Cynghorau Tref a Chymuned nodi'r materion ond mae'r Pwyllgor Datblygu Rheoli bob amser yn defnyddio argymhelliad y swyddog.
- Mae trefniadau cyllid ar sail system hen ffasiwn lle bo sieciau'n cael eu llofnodi gan lofnodyddion a'r awdurdod lleol sydd â'r praesept.
- Fyddai'r Panel yn ystyried modelau sydd ar waith yn Lloegr?
  Esboniodd cynrychiolydd LlC fod modelau yn Lloegr, UDA a gwledydd eraill yn cael eu hystyried.
- Fyddai'r Panel yn ystyried trefniadau ôl Brexit a llymder sy'n debygol o barhau am y dyfodol agos?
  Esboniodd cynrychiolydd LlC y dylai'r Panel fod yn uchelgeisiol ac ystyried Brexit a llymder.
- Roedd yr adolygiad hwn yn gynamserol, mae angen gwneud penderfyniad ar fwrdeistrefi sirol yn gyntaf a tan yr adeg honno, mae popeth yn ansicr.
  Esboniodd cynrychiolydd LlC fod y darlun ehangach yn cael ei ystyried ac roedd yr adolygiad yn cael ei wneud ochr yn ochr â chynlluniau eraill ac roedd yn rhagweithiol ac yn uchelgeisiol.
- Ellir diddymu Cynghorau Tref a Chymuned neu fyddent yn cael eu diogelu?
  Esboniodd LlC y gallent barhau neu gael eu diddymu. Nid oes llawer o newid wedi bod am lawer o flynyddoedd ond os nad oes angen iddynt barhau yna gellir newid hynny.
- Nid oedd rhai o gymunedau'n ymwybodol y gallent sefydlu Cyngor a chael eu cefnogi.
  Nid oedd yn glir hefyd pa olwg allai fod ar fodel a'r hyn y gellir ei gyflawni.
- Roedd diddordeb yn gostwng ac roedd diffyg ymgeiswyr.
  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod hyn wedi'i godi yng Nghyfarfod y Rhwydwaith Swyddog Cymorth Aelodau. Roedd Pen-y-bont ar Ogwr mewn sefyllfa dda gyda 20, roedd 4 gydag Abertawe ac roedd 110 gyda Phowys.
- Nid oedd y Cyhoedd yn glir ar rôl y Cyngor Tref a Chymuned ac roedd angen cylch gwaith craidd i'w wneud yn gliriach.
- Roedd yn bwysig myfyrio ar y gwahaniaeth rhwng cynrychiolaeth a darpariaeth gwasanaeth.

Diolchodd cynrychiolydd LlC Aelodau'r Fforwm am eu sylwadau ac anogodd iddynt gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar-lein.

PENDERFYNWYD: Bod Fforwm y Cyngor Tref a Chymuned yn nodi ac yn ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad.

157. GLANHAU A CHYNNAL A CHADW CANOL TREFI

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth adroddiad yn cynnwys gwybodaeth o ran cynnal a chadw a glanhau gan gynnwys rhaglenni glanhau a draeniau dŵr wyneb ar y briffordd ar gyfer y trefi mawr yn y fwrdeistref

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth, er 2010, fod rhaglen barhaol o arbedion ariannol wedi bod ar waith i gyflawni gostyngiadau mewn cyllid cyhoeddus ac o ganlyniad mae gostyngiad wedi bod yn lefelau staff a gwasanaethau i fwrw targedau arbed. Amlinellodd y tablau glanhau strydoedd ac esboniodd eu bod yn cael eu newid yn aml i newid amlder glanhau a chodi sbwriel i sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu ym mhob ardal. Esboniodd fod y Tîm Strydoedd Glanach wedi cydnabod, yn yr adegau o lymder hyn i allu cynnal darpariaeth gwasanaeth foddhaol, fod angen gweithio’n agosach gyda Chynghorau Tref.

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth gynnydd mewn project sy’n ymwneud â baw cŵn, cyflwyno swyddi TIKSPAC, gweithio a gwirfoddoli 3ydd sector a draeniau a gweithgareddau'r tîm glanhau strydoedd. Esboniodd nad oes llawer o gyfle i’w staff orfodi felly roedd anfon gwaith yn allanol ar sail hunan-ariannu'n cael ei ystyried.

Cododd Aelod bryder ynghylch baw cŵn a chaeau chwaraeon a meysydd chwarae a gofynnodd a yw unrhyw gynnydd wedi’i wneud. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth fod Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus a phwerau gwell yn cael eu hystyried cyn ymgynghoriad. Mewn rhan lleoedd, yr ardaloedd hyn yw’r unig ardaloedd sydd ar gael i fynd â chŵn am dro a gall fod yn her gweithredu unrhyw gynigion. Dywedodd aelod ei bod yn ymddangos bod dosbarthwyr bagiau wrth ymyl biniau yn ffordd gadarnhaol ac effeithiol o ddelio gyda’r mater.

Gofynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth a yw unrhyw un wedi’i erlyn am adael baw cŵn yn CBSP a chadarnhaodd nad yw unrhyw un wedi’i erlyn yn CBSP am adael baw cŵn.

Croesawodd Aelod y syniad o orfodi ac awgrymodd weithio gydag awdurdodau eraill i rannu arfer gorau. Gallai ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ac apiau lle y gellir rhoi gwybod am ddigwyddiadau fod y ffordd ymlaen. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth ei fod yn ystyried ap ar gyfer cwynion amgylcheddol megis goleuadau stryd a cheubyllau.

Pwysleisiodd Aelod y pwysigrwydd o gydlynu gwaith 3ydd sector a gwirfoddolwyr gyda gwaith CBSP ac y gellir darparu pecynnau gwybodaeth ac offer i helpu gyda’r gwaith. Cododd pryderon a fyddai unrhyw warant y gellir cyflawni’r amserlenni ar ôl i nifer y staff gael ei ostwng o 41 i 18. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth fod gostyngiadau sylweddol wedi bod yn adnoddau ond mae pob ymdrech wedi’i wneud i wneud y defnydd gorau o’r hyn sydd ar gael a’r meysydd allweddol oedd y rhai olaf i gael eu gostwng.

Cyfeiriodd Aelod at y dirywiad yng ngolwg y strydoedd gyda biniau sy'n gorlifo a gwaith archwili a glanhau gylïau annigonol. Amlinellodd broblemau yn ei ardal ac awgrymodd y dylid mynd i’r afael â’r broblem mewn modd mwy rhagweithiol.

Cyfeiriodd Aelod ar Gadw Cymru’n Daclus a sut mae pecynnau wedi’u datblygu a sut mae unigolion yn cael eu paru â sefydliadau gwahanol. Esboniodd Rheolwr Grŵp

Gwaith y Stryd fod system newydd yn cael ei datblygu gan gadw Cymru'n Daclus, BAVO a CBSP.

Canmolodd Aelod staff y rheng flaen sy'n gweithio ym mhob tywydd i wacau biniau a dywedodd fod problemau wedi'u gwaethygu trwy'r cynllun gwacau biniau, bagiau heb gael eu hanfon a biniau'n cael eu llenwi gyda sbwriel y cartref.

Cytunodd yr Arweinydd fod staff y rheng flaen yn ased i'r awdurdod. Byddai angen gwneud mwy o doriadau yn y dyfodol a'r dilema oedd gostyngiad mewn glanweithdra neu ostyngiadau i wasanaethau i Blant sy'n Derbyn Gofal neu grwpiau agored i niwed eraill.

Cydnabodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth waith caled y timau a sut y gellir dangos lefelau uchel o gynhyrchiant. Canmolodd Aelod Swyddog y Gweithrediadau Strydoedd Glanach a'i ddull cadarnhaol o ddatblygu atebion. Ychwanegodd yr Aelod fod cyfrifoldeb cymunedol a gellir defnyddio'r amser a ddefnyddir i dynnu lluniau o ddigwyddiadau'n well i godi sbwriel a datrys y broblem yn syth. Pe bai modd, gellir defnyddio camerâu TCC cyfnewidiol mewn ardaloedd problemus yn y Fwrdeistref.

Cododd Aelod y broblem sy'n ymwneud â sbwriel yn gostwng o loriau gwastraff llawn pan fônt yn cael eu gyrru i fyny'r bryn gyda'r ochrau ar agor. Awgrymodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth, pe bai hyn yn broblem, y dylent gysylltu af ef gyda manylion y byddai'n atgoffau'r contractwr.

Gofynnodd aelod a yw maint bagiau gwastraff gardd wedi'i leihau. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth fod y ddau wedi'u cymharu ochr yn ochr a'u bod yr un fath yn union.

Awgrymodd Aelod y dylid anfon neges atgoffa i'r Heddlu i'w hannog a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i fynd i'r afael â'r broblem sy'n ymwneud â baw cŵn Cytunodd yr Arweinydd i godi'r broblem gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

PENDERFYNWYD: Bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad.

158. ADOLYGU SIARTR CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (CTCAU) A FFORMAT CYFARFODYDD FFORWM Y CTC

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad sy'n rhoi gwybod i Fforwm y CTC o argymhellion Gweithgor Siartr y Cyngor Tref a Chymuned a fformat cyfarfodydd Fforwm y CTC. Esboniodd fod y Siartr wedi'i hadolygu ddiwethaf yn 2016 pan gytunwyd y byddai'n cael ei hadolygu bob blwyddyn i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben. Ym mis Hydref 2017 sefydlwyd Gweithgor i ddatblygu capasiti yng nghymunedau'r Fwrdeistref Sirol, lleihau effaith gostyngiadau yn y gyllideb ar ddinasyddion ac estyn perthnasau gyda sefydliadau Trydydd Sector a sefydliadau eraill.

Trafododd Fforwm y Cyngor Tref a Chymuned yr argymhellion yn yr adroddiad a chytunodd i'r argymhellion isod:

**Argymhellion:**

1. (a) y cysylltir â'r 5 Cyngor na ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Siartr eto i gael eu barn ac y cysylltir â'r Cynghorau hynny y mae angen eglurhad arnynt am agweddau ar y Siartr i fynd i'r afael â'u pryderon.

(b) Bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghyd â'r saith amcan llesiant a'i phum ffordd o weithio'n cael ei defnyddio i roi sail i drafodaethau gyda Chynghorau i fwrw ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu'r Siartr.

(c) Bod adborth o ymgysylltiadau'r Cyngor yn cael ei goladu gan y gweithgor a bod diweddariadau'n cael eu rhoi i Fforwm y CTC yn rheolaidd.

(d) bod y gwaith o raglenni Gwaith Blaen ar gyfer y Fforwm yn cael ei wella a bod ei gyfarfodydd yn ystyried ystod ehangach o eitemau gan gynnwys ymgynghoriadau cyfredol ac wedi'u cynllunio, rhannu arfer da a gwybodaeth, a nodi cyfleoedd i Gynghorau gydweithio.

(e) y dylai cyfarfodydd y Clerciau barhau a'u hymblethu gyda chyfarfodydd Fforwm y CTC.

(f) bod amlder cyfarfodydd Fforwm y CTC gael ei gynnal sef 4 gwaith y flwyddyn ond yn cael ei adolygu yn ystod y 12 mis nesaf. Bydd y Flaenraglen Waith yn penderfynu a oes angen cyfarfodydd ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

(g) Bod cynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned yn gallu enw rhywun i fynychu cyfarfod y Fforwm yn eu lle os na allant fynychu.

(h) Bod arolwg o amseroedd cyfarfodydd yn cael ei wneud i benderfynu ar ddewis ddiwrnod ac amser cyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol i ddileu unrhyw rwystrau sy'n atal aelodau rhag bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.

(i) Bod y cynigion hyn yn cael eu hadolygu ar ôl 12 mis.

(j) y gofynnir i bob Cyngor Tref a Chymuned gael eitem sefydlog ar ei agenda i:

- ystyried eitemau i'w cynnwys ar agenda Fforwm y Cyngor Tref a Chymuned.
- ystyried adborth o gyfarfodydd y Fforwm y Cyngor Tref a Chymuned
- nodi cynigion i'w cynnwys ar Gynllun Gweithredu Siartr y CTC a fyddai'n helpu i ddatblygu'r Siartr.

Nododd Fforwm y CTC y rhoddir gwybod am unrhyw argymhellion cytunedig nad ydynt o fewn cylch gwaith Fforwm y Cyngor Tref a Chymuned i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr neu'r Cyngor Tref a Chymuned priodol i'w cymeradwyo.

159. <u>EITEMAU BRYS</u>

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 18:05